**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: WQ87784 a WQ87785

Rhys ab Owen AS
Aelod Rhanbarthol o'r Senedd dros Ganol De Cymru

Rhys.abOwen@senedd.cymru

11 Ebrill 2023

Annwyl Rhys,

Diolch i chi am eich cwestiynau ysgrifenedig diweddar yn gofyn i mi :

• Pam na wnaeth Llywodraeth Cymru ddefnydd o gynnig nid er elw canolfan Rutherford ym mis Ionawr 2022 i helpu byrddau iechyd leihau restrau aros a

• Amlinellu rhesymau ar gyfer penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio prynu canolfan Rutherford, Casnewydd ar ôl i'r cwmni oedd yn rhedeg y ganolfan wedi mynd i'r wal

Nid yw Llywodraeth Cymru'n caffael nac yn comisiynu gwasanaethau gofal iechyd. Cyfrifoldeb sefydliadau'r GIG yw cynllunio a chyflenwi gwasanaethau gofal iechyd i'w poblogaethau.

Roedd gan bedwar o sefydliadau'r GIG yng Nghymru gontractau eisoes gyda Chanolfan Ganser Rutherford yng Nghasnewydd ar gyfer y gweithgarwch yr oedd arnynt eu hangen. Roedd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd wrthi'n caffael gwasanaethau ychwanegol o Ganolfan Ganser Rutherford pan gafodd y cwmni ei ddiddymu.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services